CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 7ed Medi 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mrs Rhiannon Jones, Mr Geraint Jones, Mr Brinley Owen, a Mr David Williams.

Cyhoedd: Mr Chris Linder
Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** , Mr John W Jones, Mr Huw Lloyd, Mrs Anne Williams a Mabon ap Gwynfor (Cynghorydd Sir)

3. **COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 6ED, 2018**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **FFORDD Y WERN** – Dim wedi digwydd i gyflwr y ffordd
   - **GAMFA LLWYBYR Y WERN** – y gamfa erbyn wedi malu.
   - **FFORDD GER GWERCLAS** – dim gwaith wedi ei neud i'r coed isel – ac yn dilyn pont Tyfos wedi cau, a'r traffig yn gyrru y ffordd yma, mae niwed wedi digwydd i geir.

   Gyrru y manylion ynglŷn â'r ffyrdd ymlaen i Mabon

   - **FYNWENT** – 'kerbstone' wedi'w gosod ar garreg yn ddiweddar. Deallwyd i'r garreg gael ei gosod gan Mr P Roberts. Y clerc i gysylltu a'r ymgymerwr i gysylltu a'r teulu i dynnu y cerrig o amgylch y bedd..
   - **EISTEDDFOD YR URDD 2020** – Clerc i gysylltu â Delyth, Cynwyd i gael diweddariad ar y trefniadau codi arian tuag at eisteddfod 2020.

5. **GOHEBIAETH**
   - Darllenwyd e-bost gan Jim Hall, Cyngor Sir Ddinbych o ddiweddariadau o waith a wnaed ar y pontydd yn ddiweddar, a'r gwaith a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

6. **MATERION CYNLLUNIO**
   - Derbyniwyd cais o adran cynllunio i '*addasu rhwymedigaeth cynllunio gwreiddiol a oedd yn berthnasol i dri eiddo; trwy ryddhau'r cytundeb a oedd yn ymwneud yn benodol ar 11 Rhos Helyg, Llandrillo'*. – Fe ofynnwyd i Brinley Owen i adael tra bod y cynghorwyr yn trafod y mater ac arwyddo ffurflen datgan diddordeb.
     Penderfynwyd i gefnogi'r cais.

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Yr ail daliad precept wedi ei derbyn
   - Derbyn siec o £300 gan Peredur Roberts am 2 gladdu – Mr J Phillips a Mrs M Phillips
   - Wedi derbyn 2 anfoneb gan Richard Moody am dorri gwair y cae chwarae (Gorffennaf - £60 ac Awst - £120) = £180 (100095)
   - Cadarnhawyd gan Chris Linder nad Credyd oedd y £35 a oedd yn sefyll am yr infois am yr offer chwaraeon, ac roedd wedi ei dalu gan y cyfrif cae chwarae. Penderfynwyd i dalu y swm o £35 i glirio'r swm yma, (100096)
   - AVOW – y clerc yn methu cael ymateb o AVOW ers y cyswllt cynta. Yn ymweld a'r swyddfa yn fuan.
   - Y 'Vat Returns' wedi ei gwblhau – dim swm i ddychwelyd y tro yma.
   - **AWDIT ALLANNOL**
     Fe dderbyniodd y clerc 6 pwynt a oedd angen mwy o eglurhad i gwblhau yr Awdit Allannol. Roedd y wybodaeth wedi'w gyrru i BDO gan mai heddiw (7fed Medi) oedd y dyddiad ola i'w cyflwyno.
     Fe aed drwy'r gwaith a baratowyd gan y clerc, ac archwiliwyd gan Maria Williams yn drylwyr gan y cynghorwyr. Fe nodwyd y bod gor wariant wedi bod o dan adran 137 yn ystod y flwyddyn 17/18 o £153.28.
     Cytunodd y cynghorwyr gyda'r wybodaeth a yrrwyd i BDO. Diolchwyd i'r clerc a Maria am eu gwaith.

8. **GDPR**
   - Dim materion i'w trafod

9. **UNRHYW FATER ARALL**
   - **Offer trydanol –** Goleuadau Trydanol a Llif oleuadau – angen prawf trydanol PAT.
   - **Llif Oleuadau –** Becky i ofyn i bwyllgor yr eglwys os yn fodlon i ail oleuo y goleuadau dros adeg y Nadolig. Y Cyngor i gyfrannu at gost y trydan. Chris Linder yn fodlon edrych ar y goleuadau i weld a oes bosib rhoi goleuadau LED yn lle'r bylbiau presennol.
   - **CAE CHWARAE –** Cafwyd adroddiad gan Chris Linder am y cae chwarae. Y Cyfarfod Blynyddol ar yr 20fed o Fedi.
     Angen lefelu ac ail-hadu y cae – cost o £700. Gweddill yr arian tuag at meinciau o amgylch y cae.
     Yr offer dal yn cael eu cadw yn sied yn yr ysgol ar hyn o bryd, ac os bydd cynlluniau dyfodol yr ysgol newydd yn llewyrchus, byddant dal yn defnyddio y sied, ac yn golygu na fydd angen 'container' dim mwy.
   - **YR HEN YSGOL** – Cafwyd diweddariad gan Becky. Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor creu 'brief' o 'Feasibility Study' o'r cynlluniau i ddyfodol yr adeilad. Mae'n rhaid eu cyflwyno cyn ddiwedd Mawrth 2019, neu mi fydd yr adeilad yn mynd nôl i ofal Cyngor Sir Ddinbych.
   - **Problem pry lludw (woodlice) mewn tŷ yn Bro Dinam –** wedi cysylltu a'r Sir, ond neb wedi ymateb o gwbwl. Gofyn i Mabon chwilio i'r mater.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……